# Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys (NELA)
# Taflen Gwybodaeth i Gleifion

## Beth yw Laparotomi Brys?

Mae laparotomi brys yn llawdriniaeth fawr pan fydd yn rhaid i'r llawfeddyg dorri'r abdomen (ardal y stumog) ar agor. Mae'r enw "brys" ar y llawdriniaeth oherwydd rhaid ei gwneud yn fuan iawn neu hyd yn oed ar unwaith ac ni all aros tan ddyddiad arall. Gellid gwneud y llawdriniaeth am sawl rheswm, gan gynnwys gwaedu mewnol, rhwygiad (toriad), rhwystr neu haint. Mewn sawl achos, mae'n bosibl mai dyma fydd yr unig opsiwn sydd ar gael er mwyn i'r claf wella.

## Beth yw NELA?

NELA yw'r Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys. Caiff yr Archwiliad (NELA) ei gomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Genedlaethol Archwilio Clinigol ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru. Mewn archwiliad clinigol fel NELA, bydd corff annibynnol yn asesu ansawdd gofal mewn ysbytai trwy fwrw golwg ar y ffordd mae'r ysbyty'n trin y cleifion a deiliannau'r cleifion hynny. Mae NELA yn archwiliad clinigol cenedlaethol, sy'n golygu ei fod yn cael ei gynnal mewn dros 180 o ysbytai yng Nghymru a Lloegr. Bydd NELA yn bwrw golwg ar ansawdd y gofal a gaiff cleifion sy'n cael laparotomi brys.

## Pam rydym ni'n cynnal NELA yn yr ysbyty hwn?

Rydym eisiau gwella'r gofal gaiff cleifion sy'n cael llawdriniaeth frys. I wneud hyn, byddwn yn casglu gwybodaeth bwysig am ba mor dda mae eich ysbyty yn darparu gofal i chi. Yna, byddwn yn rhoi'r holl wybodaeth werthfawr a gawsom i'r ysbyty. Bydd hyn yn amlygu meysydd gwasanaeth y mae'r ysbyty yn eu gwneud yn dda a meysydd y gallant wella ynddynt. Hefyd, bydd yn galluogi ysbytai i gymharu eu hunain ag ysbytai eraill o gwmpas y wlad. Mae disgwyl i bob ysbyty yng Nghymru a Lloegr sy'n cynnal laparotomïau brys gymryd rhan yn yr archwiliad hwn.

## Pa wybodaeth sy'n cael ei chasglu?

Byddwn yn casglu gwybodaeth am y gofal a gawsoch tra'r oeddech yn yr ysbyty. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr archwiliadau a'r driniaeth a gawsoch, pa mor hir y gwnaeth gymryd i roi gwahanol rannau o'ch triniaeth i chi, a ph'un a aethoch chi i wely gofal critigol ar ôl eich llawdriniaeth. Mae manylion llawn yr hyn sy'n cael ei gasglu i'w weld ar wefan NELA - www.nela.org.uk

## Pa wybodaeth gyfrinachol sy'n cael ei chasglu a pham?

Y wybodaeth gyfrinachol byddwn ni'n ei chasglu yw eich enw, dyddiad geni, rhif y GIG (mae gan bawb yn y wlad rif unigryw), cod post a rhywedd. Budd casglu'r manylion personol hyn yw ei fod yn rhoi'r gallu i ni baru ein gwybodaeth ni â ffynonellau cenedlaethol eraill o wybodaeth a bydd hyn yn rhoi darlun

llawnach i ni o ba mor dda y gwnaethoch adfer yn sgil llawdriniaeth (er enghraifft, p'un a fu'n rhaid i chi fynd yn ôl i aros yn yr ysbyty ar ôl i chi fynd adref).

I greu'r darlun manwl hwn o'ch gofal, byddwn yn anfon eich manylion personol (rhif y GIG, dyddiad geni, cod post) i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (Cymru) ac i NHS Digital (Lloegr). Yna, bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn defnyddio'r manylion hyn i ddod o hyd i wybodaeth yng Nghronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru a bydd NHS Digital yn eu defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth yng nghronfa ddata Ystadegau Cyfnodau Gofal Ysbytai Lloegr. Yn ogystal, bydd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac NHS Digital yn rhoi gwybod i ni am bobl a allai fod wedi marw, trwy ddefnyddio data a gasglwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Caiff y wybodaeth gysylltiedig ei dychwelyd i dîm astudiaeth NELA mewn fformat dienw. Ni throsglwyddir unrhyw wybodaeth gofal iechyd i NELA gyda'ch manylion adnabod personol. Ni chaiff eich manylion personol eu rhannu gydag unrhyw un y tu allan i'r GIG na'r tîm ymchwil.

## Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth gyfrinachol?

Byddwn yn casglu'r wybodaeth hon drwy wefan ddiogel yn unig. Dim ond yr ysbytai sy'n cymryd rhan, y meddygon a'r nyrsys sy'n gweithio ar yr Archwiliad yn yr ysbyty a thîm prosiect NELA fydd yn gallu mynd at y wefan. Bydd y wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chodio pan gaiff ei throsglwyddo, a chaiff eich gwybodaeth ei storio'n ddiogel yn unol ag argymhellion, safonau a rheoliadau'r GIG.

I leihau faint o ddata mae ysbytai'n eu casglu ar gyfer NELA, byddwn yn rhannu'ch rhif GIG gydag NHS Digital (y corff cenedlaethol sy'n casglu data gofal iechyd) fel y gall y prosiect dderbyn data Ystadegau Cyfnodau Gofal Cleifion Ysbytai (HES) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Mae NHS Digital yn rhoi data HES ac ONS i NELA mewn fformat dienw. Yna, caiff y data ei ddadansoddi yn Uned Effeithiolrwydd Clinigol Coleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr.

Hefyd, gallai data o'r archwiliad gael ei rannu at ddibenion ymchwil er mwyn helpu i wella gofal cleifion, a rhestrir y dibenion hyn isod. Bydd data bob amser yn cael ei rannu gydag ymchwilwyr o dan reoliadau llywodraethu gwybodaeth a rheoliadau cyfreithiol. Lle bynnag y bo'n bosibl, dim ond gwybodaeth nad yw'n bersonol gaiff ei rhannu. Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch fyth ei chyhoeddi.

## Pa fuddion eraill allai ddeillio o ddefnyddio fy ngwybodaeth?

Weithiau, gofynnir i'r Archwiliad Cenedlaethol o Laparotomïau Brys gefnogi ymchwil feddygol i wella gofal llawfeddygol. Mae ymchwilwyr yn gwneud y ceisiadau hyn yn uniongyrchol i HQIP, a fydd yna'n cysylltu â NELA ar ôl adolygu'r cais ser mwyn sicrhau bod y cais er budd y cyhoedd. Mae rhagor o wybodaeth am y broses hon i'w chael yn: https://www.hqip.org.uk. Wrth gefnogi ymchwil feddygol, rydym yn gofalu sichrau bod amddiffyniadau priodol ar waith i ddiogelu cyfrinachedd cleifion a sicrhau bod y data'n cael ei ddefnyddio'n ddiogel.

## Pam na ofynnwyd i mi am fy nghaniatâd i ddefnyddio fy ngwybodaeth?

Oherwydd bod rhai cleifion yn sâl iawn cyn ac ar ôl iddynt gael laparotomi brys, byddai'n anodd iawn gofyn i bob claf am eu cydsyniad. Mae'n bwysig ein bod yn cael gwybodaeth gan bob claf, nid yn unig y rhai sy'n ddigon iach i roi eu cydsyniad. Dyna sut y gallwn roi trosolwg cywir o ansawdd. Gall fod yn

amser anodd iawn i gleifion a'u rheini, a bryd hynny, nid eu blaenoriaeth bennaf fyddai gofyn iddynt am y prosiect.

## Beth os nad wyf am i'm gwybodaeth gyfrinachol gael ei chynnwys?

Anfonwch e-bost at info@nela.org.uk a rhoi "Cais claf i eithrio o'r archwiliad/Patient request to opt-out" yn llinell y pwnc. Yna, byddwn yn cysylltu â'r ysbyty i sicrhau nad yw'n cynnwys eich manylion yn yr archwiliad. Os bydd yr ysbyty eisoes wedi cynnwys eich manylion, byddwn yn gofyn iddynt gael eu dileu. Fel arall, rhowch wybod i aelod o'ch tîm gofal lleol eich bod am eithrio o'r archwiliad. Yna, byddwn yn sicrhau na chaiff eich manylion eu cynnwys yn yr archwiliad. Os byddant eisoes wedi'u cynnwys, byddwn yn gofyn iddynt gael eu dileu.
Os yw'n well gennych, gallwch ffonio Llinell Gymorth NELA ar 020 7092 1683.